Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Datganiad ar gynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru** |
| **DYDDIAD** | **28 Gorffennaf 2023** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ym mis Mai, adroddais ar gynnydd gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Cyfarfu'r Prif Weinidog, arweinydd Plaid Cymru a minnau â'r Cyd-gadeiryddion y mis hwn am ddiweddariad rheolaidd ar y gwaith sy'n parhau.

Mae'r adroddiad cynnydd diweddaraf oddi wrth y Cyd-gadeiryddion i'w weld yma: Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad cynnydd – Gorffennaf 2023.

Cawsom ein calonogi'n arbennig o glywed am y ffordd y mae'r Comisiwn wedi ymgysylltu â'r cyhoedd ac am eu hymdrechion i sicrhau y bydd yr amrediad llawn o safbwyntiau ar draws y ddadl ynghylch dyfodol cyfansoddiadol Cymru yn cael ei ystyried wrth lunio'r adroddiad terfynol.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau. Os bydd yr aelodau eisiau imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.